## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT

## 28 IONAWR 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 28 Ionawr 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sian Braun, Bob Connah, Paul Cunningham, Gladys Healey, Joe Johnson, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith a Martin White

**AELODAU CYFETHOLEDIG:**
Lynn Bartlett, David Hytch a Wendy White

**YMDDIHEURIADAU:** Mrs Rebecca Stark ac Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgolion

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Patrick Heesom (ar ran y Cynghorydd David Williams)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cynghorydd Veronica Gay a'r Cynghorydd Carolyn Thomas yn bresennol fel arsylwyr.

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Mr David Edwards, Mr Martin Froggett, Gaynor Murphy a Vicky Lees (GwE) (ar gyfer eitem rhif 5 ar y rhaglen), Damian Hughes, Uwch Reolwr, Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion (ar gyfer eitem rhif 6 ar y rhaglen), Anthony Smith, Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (ar gyfer eitem rhif 7 ar y rhaglen), a Jay Davies, Ymgynghorydd Perfformiad Strategol (ar gyfer eitem rhif 8 ar y rhaglen)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

### 30. Y CYNGHORYDD KEVIN HUGHES

Gwnaeth y Cadeirydd arwain y Pwyllgor mewn teyrnged dawel i'r Cynghorydd Kevin Hughes a oedd wedi marw.

Siaradodd y Cynghorydd Tudor Jones am ei gyfeillgarwch gyda'r Cynghorydd Kevin Hughes a'i nifer o gyflawniadau mewn cyfnod byr fel Cynghorydd Sir, yn enwedig ei ymgyrch o ran sicrhau bod cynnyrch glanweithiol rhad ac am ddim ar gael mewn ysgolion. Soniodd am ei neges olaf a oedd yn erfyn ar bobl ar draws Sir y Fflint i aros yn ddiogel a dywedodd fod y neges hon yn bwerus iawn a byddai'n hiraethu'n fawr amdano.

Siaradodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ar ran yr holl swyddogion yn y portffolio Addysg a oedd i gyd yn hynod o drist wrth glywed y newyddion trist bod y Cynghorydd Kevin Hughes wedi marw. Dywedodd ei fod wedi bod yn

ddylanwadol iawn ar y Pwyllgor a chanmolodd ei egni, brwdfrydedd a chreadigrwydd. Dywedodd ei bod wedi bod yn bleser gweithio gydag ef dros y blynyddoedd ac y byddai'r swyddogion i gyd yn ei golli'n fawr a'u bod wedi bod yn ddiolchgar iawn am ei gefnogaeth.

Dywedodd Mr. David Hytch fod y Cynghorydd Kevin Hughes wedi bod yn ased mawr i'r Pwyllgor a soniodd am ei gyfraniadau rhagweithiol ac fel yr oedd bob amser mor gadarnhaol. Dywedodd y byddai'n golled fawr i'r Cyngor Sir, y gymuned yr oedd yn ei chynrychioli, ond yn bennaf oll, i'w deulu.

Siaradodd y Cadeirydd i gefnogi'r sylwadau blaenorol i gyd a dywedodd fod y Cynghorydd Kevin Hughes wedi bod yn Aelod gwych o'r Pwyllgor. Roedd yn cofio'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau cyfryngau cymdeithasol ar blant ysgol ac roedd y Cynghorydd Hughes wedi trefnu ymweliad safle iddo ef a'r Prif Swyddog er mwyn galluogi ymgysylltu â phlant ysgol. Yna roedd y Cynghorydd Hughes wedi paratoi erthygl i'r wasg i amlygu pwysigrwydd cadw plant yn ddiogel ar gyfryngau cymdeithasol, ond ni soniodd am ei ran yn hyn, a oedd yn dangos ei natur anhunanol a'i awydd i ddiogelu plant.

## 31. DATGANIADAU DIDDORDEB (YN CYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gladys Healey a'r Cynghorydd Tudor Jones gysylltiad personol ag eitem rhif 6 ar y rhaglen – Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Foderneiddio Ysgolion.

## 32. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2020.

Cynigodd y Cynghorydd Bob Connah y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi. Gwnaeth Joe Johnson eilio'r cynnig.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 33. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft a dywedodd y byddai adborth ffurfiol gan Estyn am Ddysgu Cyfunol yn cael ei gynnwys fel rhan o adroddiad hunanwerthuso'r Gwasanaethau Addysg, i gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Tynnodd sylw'r Aelodau at adroddiadau a fyddai'n cael eu cyflwyno i gyfarfod ar y cyd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant, a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar 17 Mehefin, a dywedodd fod adroddiad ar Asesu Dwys a Chefnogaeth Therapiwtig, fel a awgrymwyd gan y Cynghorydd Mackie, wedi'i ychwanegu.

O ran olrhain camau gweithredu, roedd mwyafrif y camau gweithredu wedi'u cwblhau, gyda gwybodaeth gan TG am gyllid gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer dysgu digidol, yn aros i gael ei darparu i'r Pwyllgor.

Diolchodd Mr David Hytch i'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) am y wybodaeth a ddosbarthwyd am Ddysgu Oedolion yn y Gymuned, ond eglurodd fod ei gwestiwn penodol yn ystod y cyfarfod diwethaf wedi bod o ran sut byddai cleientiaid posibl yn cael eu nodi. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai cyrsiau'n cael eu hysbysebu'n ehangach oherwydd cynnydd o ran cyllid a gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Wrecsam ac Ymddiriedolaeth Gymunedol Glannau Dyfrdwy, gydag amrywiaeth helaeth o raglenni ar gael i bawb dros 19 oed. Byddai cyrsiau'n cael eu hysbysebu i ddysgwyr wneud cais amdanynt, ond hefyd gallai partneriaid cymunedol gyfeirio neu atgyfeirio – fel Coleg Cambria a Chymunedau am Waith, a oedd yn cael eu cynrychioli ar y bartneriaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; ac
(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 34. Y DIWEDDARAF AM WELLA YSGOLION AC ARHOLIADAU 2021

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) adroddiad Diweddaru Gwella Ysgolion ac Arholiadau 2021 a chroesawodd y swyddogion GwE canlynol i'r cyfarfod, a fyddai'n cynorthwyo i gyflwyno'r adroddiad:-

- Mr. Martyn Froggett, Arweinydd Craidd Uwchradd Sir y Fflint
- Mr. David Edwards, Arweinydd Craidd Cynradd Sir y Fflint
- Mrs. Gaynor Murphy, Ymgynghorydd Gwella Uwchradd
- Mrs. Vicky Lees, Ymgynghorydd Gwella Cynradd

Soniodd y Prif Swyddog am yr adroddiad Dysgu Cyfunol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr ac eglurodd fod yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg ehangach o'r gefnogaeth roedd y gwasanaeth rhanbarthol wedi'i darparu i bob awdurdod lleol yn ystod y sefyllfa argyfwng. Roedd y canolbwynt wedi bod ar les dysgwyr, cymunedau ysgol a staff, a oedd wedi helpu i lunio a chynnal y canolbwynt ar welliant ysgol ym mhob ysgol wrth ddarparu cefnogaeth yn ystod y pandemig.

Rhoddodd y Prif Swyddog drosolwg o'r gefnogaeth a ddarparwyd ar gyfer sgiliau craidd llythrennedd a rhifedd a'r cynllun datblygu proffesiynol a ddarparwyd gan GwE er mwyn i athrawon a chymorthyddion dosbarth sicrhau dysgu o safon yn yr ystafell ddosbarth neu drwy ddysgu digidol o bell.

Cafwyd cyflwyniad manwl am y Rhaglen Dysgu Carlam, a oedd yn trafod y meysydd canlynol:-

- Cyd-destun - llythrennedd a rhifedd, darparu a chynnal addysgu o ansawdd uchel ar draws y cwricwlwm gydag ymyriadau strwythuredig, o ansawdd uchel wedi'u targedu;
- Cyflymu'r dysgu;
- Cynradd – enghreifftiau o ddilyniannau dysgu, adolygiadau tystiolaeth a strategaethau addysgu a dysgu;
- Cyflymu'r dysgu yn y Sector Uwchradd;
- Pecyn Gwaith Llythrennedd;
- Cynnig Llythrennedd wedi'i Dargedu;
- TGAU Saesneg Iaith – Casgliadau, Cyflymu;
- Mathemateg GwE;
- Effaith

Gan ymateb i sylw gan y Cynghorydd Ian Smith, cytunwyd bod copi print mwy o'r model sgiliau carlam, a ddangoswyd fel rhan o'r cyflwyniad, yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Diolchodd Mr David Hytch i swyddogion am yr adroddiad a'r cyflwyniad, roedd yn teimlo eu bod yn llawn gwybodaeth a soniodd am gydlynu a chydweithredu cadarnhaol rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a GwE. Soniodd am yr ymatebion i arolygon unigol, fel a ddangoswyd yn yr atodiad i'r adroddiad, a holodd a oedd hyn yn ymwneud â Chymru gyfan yn hytrach na dim ond Sir y Fflint, ac awgrymodd y dylid amlygu yn yr adroddiad fod lles disgyblion a staff o'r flaenoriaeth uchaf. Soniodd hefyd am y straen enfawr roedd ysgolion yn ei deimlo o ran sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gwelliant ysgol a blaenoriaethu lles staff a dysgwyr, fel a nodwyd yn yr adroddiad, ac er ei fod yn croesawu'r ffaith fod ymgynghorwyr yn ceisio gwirio ansawdd dysgu, dan yr amgylchiadau, roedd yn gobeithio y byddai'r pwysau sydd ar ysgolion yn cael ei ystyried. Dywedodd y Prif Swyddog nad eu bwriad oedd rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion, ond roedd gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb dros safonau mewn ysgolion ac roeddent yn ymgysylltu'n rheolaidd gydag Estyn. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau nad oedd pwysau ychwanegol yn cael ei roi ar ysgolion, roedd yn achos o fonitro'r sefyllfa ac addasu cefnogaeth yn unol â hynny.

Eglurodd Mr. Froggett nad oedd yn bosibl cynnal y safon arferol o ran sicrhau ansawdd a chadarnhaodd fod y canolbwynt ar gefnogi ysgolion yn ystod amser anodd, gyda'r flaenoriaeth ar les. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda Phenaethiaid a rôl GwE oedd lliniaru eu pryderon a'u cefnogi trwy'r argyfwng. Roedd Mr. Edwards yn cefnogi'r sylwadau a rhoddodd enghreifftiau o sesiynau byw a ddarparwyd ar gais ysgolion.

Gan ymateb i gwestiwn gan Mrs Bartlett, amlinellodd y Prif Swyddog bwysigrwydd darparu cefnogaeth i rieni a dywedodd fod GwE wedi bod yn rhagweithiol o ran y mater hwn wrth roi cyngor i ysgolion o ran sut ddylai cynnig dysgu cyfunol effeithiol edrych. Roedd dogfen wedi'i darparu i ysgolion a oedd yn darparu canllaw o ran cyfathrebu â rhieni i ddarparu sicrwydd. Soniodd Mrs. Gaynor Murphy am fideos a ddarparwyd i ysgolion eu rhannu gyda rhieni i'w cynorthwyo i gefnogi eu plant gyda llythrennedd sylfaenol. Diolchodd Mrs. Bartlett i swyddogion am eu hymateb a soniodd am ei phrofiad personol ei hun a'r ffordd gadarnhaol roedd ysgolion wedi addasu yn ystod y sefyllfa argyfwng, ond mynegodd bryderon am les athrawon a rhieni.

Soniodd y Cynghorydd Dave Mackie am gefnogaeth llythrennedd a rhifedd a gofynnodd a oedd hyn yn ychwanegol at gefnogaeth bresennol. Soniodd hefyd am ddysgu carlam a gofynnodd a oedd hyn yn golygu bod tasgau'n cael eu cwblhau mewn cyfnod byrrach, ac a oedd yn gwella argaeledd deunyddiau. Atebodd Mrs. Lees fod y Rhaglen Dysgu Carlam yn rhoi adnoddau i ysgolion fesur lle roedd disgyblion o ran eu dysgu ar-lein er mwyn cynorthwyo pan fyddent yn dychwelyd i ddysgu wyneb i wyneb mewn ysgolion. Roedd y Rhaglen yn cryfhau sgiliau llythrennedd a rhifedd a darparu cefnogaeth i helpu'r disgyblion i ddangos cynnydd.

Diolchodd y Cadeirydd i GwE am y ffordd yr oeddent wedi ymateb i'r sefyllfa argyfwng ac am y pecynnau cefnogaeth a ddarparwyd i ysgolion a rhieni, a oedd wedi'u hategu gan les myfyrwyr. Rhoddodd sylwadau am yr her i GwE o ran cysylltu ag ysgolion i greu graddau ar gyfer TGAU a Lefel A, a gofynnodd a fyddai angen sefyll y profion darllen a rhifedd cenedlaethol o hyd. Ymatebodd y Prif Swyddog trwy ddweud bod heriau sylweddol o'n blaenau, a dyma pam roedd cydweithio mewn ysgolion yn allweddol o ran nodi ffynonellau tystiolaeth i seilio'r farn honno arnynt a chaiff hyn ei rannu gyda disgyblion a rhieni. Byddai'r wybodaeth hon yn dryloyw iawn, a byddai dysgwyr yn ymwybodol o'r dyddiad pan oedd rhaid cyflwyno'r asesiadau terfynol. Roedd Cymwysterau Cymru yn gweithio i ddarparu canllawiau ar hyn. Roedd yn her sylweddol i ysgolion a byddai GwE yn darparu cefnogaeth strwythuredig ond yr ysgolion fyddai'n gwneud y penderfyniadau hyn, nid GwE. Cadarnhaodd Mrs. Lees fod Asesiadau Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen a Rhifedd Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn fyw, ac roedd ysgolion yn gallu cael mynediad i gyfrif pob plentyn, ond nid oedd gofyniad i ysgolion gynnal y profion hyn yn ystod y sefyllfa bresennol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod y canllawiau hyn wedi'u dosbarthu trwy'r Ffederasiwn Penaethiaid a chadarnhaodd Mr. Edwards hefyd fod pob ysgol wedi cael gwybod y gallent ddefnyddio'r profion hyn at ddibenion diagnostig, fel bo'n briodol.

Soniodd y Cynghorydd Mackie am yr amryw ddewisiadau hyfforddiant sydd ar gael i athrawon trwy GwE ac awgrymodd y gallai gwybodaeth gael ei chynnwys yn adroddiadau'r dyfodol am faint o athrawon oedd wedi cymryd rhan yn y sesiynau hyfforddiant, eu hadborth am y sesiynau hyfforddiant, a faint o sesiynau hyfforddiant oedd wedi'u cynnal. Soniodd hefyd am ddisgyblion nad oeddent yn ymgysylltu a gofynnodd pa gefnogaeth ychwanegol oedd yn cael ei darparu i gynorthwyo disgyblion i ail-ymgysylltu a sut, pa gefnogaeth fyddai'n cael ei darparu i atal y disgyblion hyn rhag bod gormod ar ei hôl hi pan fyddant yn dychwelyd i ddysgu wyneb i wyneb mewn ysgolion. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y Cynnig Dysgu Proffesiynol a oedd wedi'i ddarparu fel rhan o'r adroddiad, a oedd yn galluogi'r Pwyllgor i weld amrywiaeth a dyfnder cyrsiau dysgu proffesiynol a oedd yn cael eu cynnig i ysgolion. Soniodd Mr. Froggett am y nifer o gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael a'r Rhaglenni Cenedlaethol fel MPQH ac arweinyddiaeth ganol, a oedd wedi ailddechrau'n ddiweddar, gyda nifer fawr o bobl yn cofrestru yn Sir y Fflint. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai ysgolion yn ymgysylltu â pha bynnag agwedd ar gefnogaeth roeddent yn teimlo oedd ei hangen arnynt ac eglurodd fod y cynnig dros y we hefyd yn golygu bod yr hyfforddiant yn fwy hygyrch a'i bod i fyny i ysgolion drafod â'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i ymgysylltu ag unrhyw raglenni roeddent yn teimlo bod eu hangen arnynt.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor sylwadau am yr amrywiaeth o dechnegau oedd yn cael eu defnyddio gan athrawon i ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod y sefyllfa argyfwng a dywedodd y byddai angen gweithgareddau chwarae strwythuredig er mwyn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu'n academaidd a chymdeithasol. Mynegodd bwyll o ran y disgwyliadau sy'n cael eu rhoi ar bobl ifanc, yn enwedig plant iau a fyddai angen addasu i strwythur yr ysgol unwaith eto, a dywedodd fod angen asesu pob person ifanc er mwyn canfod eu hanghenion. Roedd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg fel Llefarydd Addysg CLILC, i ofyn am adnoddau ychwanegol i fodloni cost cefnogaeth ychwanegol ofynnol.

Canmolodd Mrs. Wendy White y pecynnau hyfforddiant a ddarperir yn Sir y Fflint a darparodd wybodaeth am hyfforddiant a datblygu arweinwyr a oedd yn cael ei ddarparu mewn Ysgolion Catholig, a bod hyn ar gael i unrhyw athro neu aelod staff cyswllt. Roedd y rhaglen hon yn bodoli ar draws esgobaeth y gogledd orllewin ac roedd ar gael ar-lein, gyda chanolbwynt ar ddatblygu pobl sy'n dod i mewn i Ogledd Cymru, yn enwedig o ran rheoli talent, er mwyn amlygu beth oedd gan Gymru i'w gynnig yn eu hysgolion gwych. Roedd hyn yn gweithio mewn undod â Sir y Fflint.

Siaradodd Mrs Bartlett i gefnogi'r sylwadau a wnaeth Arweinydd y Cyngor, a dywedodd ei bod yn falch iawn bod y canolbwynt yng Nghymru wedi bod ar les a pheidio â gadael i'r plant hyn feddwl eu bod wedi methu. Roedd yn teimlo y dylid llongyfarch disgyblion am sut roeddent wedi datblygu ffyrdd newydd o ddifyrru eu hunain, cefnogi eu teuluoedd, datblygu diddordebau newydd a datblygu eu sgiliau TG yn ystod y pandemig hwn.

Cafodd yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad, gan gynnwys y geiriad ychwanegol sy'n nodi bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r amrywiaeth o gefnogaeth a ddarperir gan GwE, fel a awgrymodd y Cadeirydd, eu cynnig gan y Cynghorydd Paul Cunningham a'u heilio gan Mrs Lynne Bartlett.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi gallu craffu'n effeithiol ar waith GwE o ran eu modd o ddarparu gwasanaethau gwella ysgol i ysgolion Sir y Fflint yn ystod pandemig Covid-19;

(b) Bod y Pwyllgor yn cydnabod a chymeradwyo'r amrywiaeth helaeth o gefnogaeth a ddarperir gan GwE i alluogi ysgolion i newid eu modelau darpariaeth addysgol yn gyflym ac effeithiol i ymateb yn uniongyrchol i bandemig Covid-19; ac

(c) Bod y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith partneriaeth effeithiol rhwng GwE a'r Portffolio Addysg i sicrhau bod ysgolion Sir y Fflint yn cael cefnogaeth amserol o ansawdd uchel mewn cyfnod digynsail o ran newid a phryder.

**35. DIWEDDARIAD MODERNEIDDIO YSGOLION**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion) yr adroddiad a oedd yn amlinellu cynnydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar draws nifer eang o brosiectau. Er bod heriau sylweddol wedi bod o ganlyniad i'r

sefyllfa argyfwng, roedd y Tîm Moderneiddio Ysgolion wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran y Rhaglen ac roeddent wedi cynnal a darparu o fewn terfynau amser a ragwelwyd, trwy addasu dulliau gweithio.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau penodol yn y Rhaglen, fel a amlinellir yn yr adroddiad.

Soniodd y Cynghorydd Tudor Jones am y cynnig i sefydlu ffederasiwn rhwng ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir, Ysgol yr Esgob ac ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir, Ysgol Licswm, a dywedodd fod y cydweithredu rhwng y ddwy ysgol wedi bod yn gadarnhaol iawn. Soniodd hefyd am y cynnig gofal plant yn y ddwy ysgol a diolchodd i'r Uwch Reolwr am ei gefnogaeth o ran sicrhau bod hyn wedi'i gynnwys fel rhan o'r prosiect.

Gofynnodd y Cynghorydd Dave Mackie a fyddai prosiectau ychwanegol yn cael eu hystyried ar ôl cwblhau Band A a B o'r Rhaglen, a gofynnodd hefyd a ellid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Ysgol Uwchradd yn Saltney. Gofynnodd hefyd a ellid darparu eglurhad i'r Pwyllgor o ran cyllid MIM. Eglurodd yr Uwch Reolwr fod MIM yn fodel newydd o'r Bartneriaeth Cyhoeddus-Preifat a bod WEPCo yn is-gwmni Banc Datblygu Cymru a'i fod mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru (LlC) hefyd. Y gyfradd ymyrraeth ganrannol drosfwaol roedd yr awdurdod yn ei chael o hyn oedd 81%. Cadarnhaodd fod hwn yn fodel gwell na'r model traddodiadol lle roedd ysgolion yn cael eu hadeiladu gyda llawer o arian, ac wedyn nid oedd digon o arian i gynnal yr adeiladau. Roedd y model hwn yn darparu cylch oes 25 mlynedd i'r adeilad, felly pan fyddai'r adeilad yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r awdurdod lleol, roedd mewn cyflwr gwych heb unrhyw broblemau cynnal a chadw. Dywedodd hefyd y byddai Rhaglen Band C yn dechrau yn 2025, ac roedd gwaith cynllunio wedi dechrau eisoes.

Dywedodd y Prif Swyddog fod gwaith yn mynd rhagddo ar baratoi ar gyfer ymgynghori ar gynigion ar gyfer yr Ysgol Uwchradd yn Saltney, a oedd wedi bod yn anodd oherwydd y sefyllfa argyfwng. Roedd awgrymiadau'n cael eu hystyried o ran darparu'r ddogfen ymgynghori'n electronig i sicrhau lefel uchel o ymgysylltiad. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod y prosiect hwn yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel.

Gan ymateb i sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Patrick Heesom, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr awdurdod lleol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn ysgolion yng ngorllewin Sir y Fflint, a rhoddodd amlinelliad o brosiectau diweddar.

Diolchodd Mrs. Wendy White i'r Uwch Reolwr a'i Dîm am ei gefnogaeth. Soniodd am yr angen i ysgolion Catholig ddarparu cyllid 15% fel rhan o brosiect a mynegodd bryderon nad oedd hyn yn bosibl i ysgolion bach. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru (LlC) yn cael eu lobïo ar hyn o bryd i ailystyried hyn wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau nad oedd ysgolion wedi'u gadael allan oherwydd y diffyg cyllid.

Cynigiodd y Cynghorydd Janet Axworthy yr argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a chynnydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

## 36. GWERSI COVID Y MAE YSGOLION WEDI'U DYSGU AC ASESIADAU RISG

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad a diolchodd i'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Tîm Iechyd a Diogelwch am y gefnogaeth a ddarparwyd i ysgolion yn ystod y sefyllfa argyfwng. Amlinellodd y newidiadau a oedd wedi'u cyflwyno o ran asesiadau risg a rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod ysgolion yn gweithio'n ddiogel ac yn monitro'r sefyllfa'n barhaus.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol am y cyngor a chymorth a ddarparwyd i Ysgolion a dywedodd bod pob asesiad risg ysgol wedi'i adolygu ddwywaith a bod adborth ac argymhellion clir wedi'u darparu lle bo angen. Yn dilyn yr adolygiad o asesiadau risg ysgolion ar ddiwedd tymor yr hydref, roedd y Tîm Iechyd a Diogelwch wedi cynhyrchu adroddiad a oedd yn crynhoi'r gwersi allweddol a ddysgwyd. Roedd hyn wedi'i rannu gyda phob ysgol i sicrhau gwelliant parhaus o'r broses asesu risg. Roedd manylion am y gwersi a ddysgwyd wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Diolchodd Mr. David Hytch i'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol am y gefnogaeth a ddarparwyd i ysgolion yn ystod y sefyllfa argyfwng. Soniodd am y ddogfen gwersi a ddysgwyd yn Atodiad 1 a gofynnodd a oedd yn briodol i lywodraethwyr ysgol gynnal archwiliadau diogelwch o eiddo ysgol a mynegodd bryderon am y risgiau iddynt. Cytunodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod hyn yn anodd ar hyn o bryd a bod y Tîm Iechyd a Diogelwch yn cyfyngu ar nifer eu harchwiliadau ar hyn o bryd hefyd. Er ei bod yn anodd cynnal archwiliadau ffisegol, gallai llywodraethwyr adolygu dogfennau a chynnal trafodaethau gyda staff yn lle hynny, er mwyn canfod a oedd pethau'n gweithio ai peidio. Eglurodd y Prif Swyddog fod hwn yn argymhelliad nid cyfarwyddeb, a byddai'n digwydd dim ond os oedd yr unigolyn yn fodlon ymweld ag eiddo'r ysgol a'i bod yn ddiogel gwneud hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn croesawu'r sicrwydd a ddarparwyd bod gan ysgolion asesiadau risg cadarn ar waith a mesurau rheoli effeithiol er mwyn cynnal amgylchedd ysgol diogel; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cydnabod gwaith y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol o ran cefnogi ysgolion yn ystod y pandemig a nodi'r gwersi a ddysgwyd hyd yma.

## 37. CYNLLUN Y CYNGOR 2021-22

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) adroddiad i ystyried Cynllun arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2021/22 gan ganolbwyntio'n bennaf ar

bortffolio priodol y Pwyllgor. Darparodd wybodaeth gefndir a rhoddodd grynodeb byr o'r Cynllun, gyda chanolbwynt penodol ar:-

- Cwricwlwm Cymru newydd;
- Gwaith parhaus i godi safonau a chyflawniad i bobl ifanc;
- Darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid;
- Gwasanaeth Hamdden a Llyfrgelloedd Aura;
- Prosiect Archifau;
- Anghenion Dysgu Ychwanegol; a
- Strategaeth Cyfrwng Cymraeg

Gwahoddodd y Prif Swyddog yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol i amlinellu cynnwys y cynllun drafft a'r broses ar gyfer datblygu pellach. Dywedodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol wrth y Pwyllgor fod nifer o elfennau yn y cynllun wedi'u hadolygu. Rhoddodd wybodaeth am y gwaith partneriaeth ar draws portffolios a dywedodd y byddai hyn yn cael ei rannu gyda phob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu er mwyn cael eu hadborth. Yna byddai'r cynllun drafft terfynol gan gynnwys adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, y Cabinet a'r Cyngor. Ychwanegodd, o ran monitro'r Cynllun, y nod oedd gallu dangos effaith fel awdurdod mewn modd strategol, a bod y Cynllun yn uchelgeisiol ond yn realistig gan ystyried yr amgylchiadau presennol.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Patrick Heesom, dywedodd y Prif Swyddog fod y ddogfen cais crynodeb ar gyfer y Prosiect Archifau yn gyfrinachol a thynnodd ei sylw at nifer o adroddiadau a oedd wedi'u cyflwyno i'r Cabinet ac a oedd ar gael i'w gweld.

Rhoddodd Mr. David Hytch longyfarchiadau i'r awdurdod lleol am Gynllun y Cyngor uchelgeisiol a chymeradwyodd y sylwadau a wnaed gan y Prif Swyddog. Rhoddodd sylwadau am elfen 'Cyngor Gwyrdd' y Cynllun a dywedodd fod 97% o ddolydd blodau gwyllt wedi'u colli'n genedlaethol. Dywedodd fod y Swyddog Bioamrywiaeth yn ymwybodol o ymgyrch genedlaethol i gynnal amrywiaeth fotanegol a gofynnol a fyddai cynnwys rheoli creadigol o ran ymylon ochr ffyrdd er mwyn cynyddu amrywiaeth fotanegol, yn yr ardal flaenoriaeth hon, yn ddefnyddiol o ran cynyddu uchelgeisiau'r Swyddog Bioamrywiaeth.

Croesawodd y Cadeirydd y ddogfen gadarnhaol ac awgrymodd fod Cynghorwyr yn cael eu hannog i amlygu rhannau o Gynllun y Cyngor yn eu newyddlenni lleol i breswylwyr Sir y Fflint. Awgrymodd fod lles holl staff y Cyngor yn cael ei amlygu fel amcan, gyda nodau wedi'u gosod o ran beth hoffai'r Cyngor ei gyflawni. Rhoddodd sylwadau hefyd am yr heriau i gymunedau gwledig a dywedodd yr hoffai weld pwyslais cryfach ar sut roedd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau roedd cymunedau gwledig yn eu hwynebu.

Eglurodd y Prif Swyddog fod llawer iawn o waith wedi'i wneud i sicrhau lles staff a bod hon yn broses fewnol, tra roedd Cynllun y Cyngor yn ddogfen allanol i gyflwyno blaenoriaethau'r Cyngor i holl breswylwyr Sir y Fflint. Cytunodd Swyddogion i adrodd yn ôl o ran y sylwadau ac amlygu meysydd yng Nghynllun y Cyngor lle byddai blaenoriaethau'n cynorthwyo cymunedau gwledig.

Cynigiodd y Cynghorydd Janet Axworthy yr argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Tudor Jones.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi themâu a ddatblygwyd o Gynllun y Cyngor 2021/22 cyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.

## 38. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4.54pm)

...............................

**Y Cadeirydd**